

ADRODDIAD I'R CABINET 19 Chwefror 2013

Aelod Cabinet: Cyngorydd Ioan C Thomas

Pwnc: Patrwm darpariaeth y Gwasanaeth Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau yng Ngwynedd i'r dyfodol

Swyddog cyswllt: Iolo P Roberts Rheolwr Cofrestru

Y penderfyniad a geisir

Cynnig gwasanaeth cofrestru o'r gorsafoedd allanol yng Nghaernarfon, Porthmadog, Tywyn a Bala yn ogystal â'r prif swyddfeydd ym Mangor, Pwllheli a Dolgellau. Yn sgil hyn ni fydd y gwasanaeth ar gael yn Llanberis, Deiniolen, Penygroes, Criccieth, Penrhyndeudraeth, Trawsfynydd, Harlech na Blaenau Ffestiniog.

Barn yr aelod lleol

Fe yrrwyd allan y ddogfen ymgynghorol i bob cyngorydd ac fe gafwyd ymateb gan 2 aelod.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Gwasanaeth Cofrestru Gwynedd yn cofrestru holl enedigaethau, marwolaethau, priodasau a phartneriaethau sifil a ddigwydd yn y sir. Lleolir y brif Swyddfa Gofrestru ym Mangor ac mae yna 2 brif swyddfa arall yn Nolgellau a Phwllheli. Mae yna swyddogion cofrestru wedi eu lleoli yn y 3 safle ac fe gynigir yr holl ystod o wasanaethau cofrestru ohonynt.
- 1.2 Yn ôl gystal â'r 3 safle uchod, mae'r swyddogion cofrestru yn teithio ohonynt i gofrestru genedigaethau a marwolaethau mewn amryw o safleoedd eraill (a elwir yn orsafoedd allanol). Rhestrir y safleoedd hyn yn atodiad 1 lle ceir hefyd fanylion am y defnydd a wneir o'r gwahanol swyddfeydd
- 1.3 O safbwynt cofrestru rhaid i unrhyw ddigwyddiad gael ei gofrestru yn y rhanbarth cofrestru lle mae wedi digwydd. Yn dilyn ad-drefniant yn 2009 mae Gwynedd yn un rhanbarth cofrestru ac felly

gellir cofrestru unrhyw ddigwyddiad mewn unrhyw un o'n safleoedd cofrestru.

- 1.4 Cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaeth yn ystod 2011/12 ac fel rhan o adolygiad fe adnabuwyd y posibilrwydd o beidio â darparu'r gwasanaeth o'r gorsafodd allanol i'r dyfodol ond yn hytrach canolbwyntio ar ei gynnig o'r 3 brif swyddfa sef Bangor, Dolgellau a Phwllheli. Bu ymgynghori ar hyn yn ystod Rhagfyr 2012/Ionawr 2013.

2. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

- 2.1 Yn dilyn trafodaethau pellach ac ar ôl ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gwelwyd bod yna achos i gadw presenoldeb yng Nghaernarfon oherwydd y defnydd uchel a wneir o'r swyddfa yno. Dylid hefyd cael presenoldeb yn ardal Porthmadog ar 2 fore a fyddai'n gwasanaethu fel man cofrestru ar gyfer trigolion dwyrain Dwyfor a gogledd Meirionnydd. Bwriedir hefyd cadw presenoldeb un bore'r wythnos yn Nhywyn a'r Bala yn sgil y pellter sydd ynghlwm â theithio i Ddolgellau o'r ardaloedd hynny. Er mwyn gallu cyflawni hyn bydd yn rhaid cwtogi peth o'r gwasanaeth a gynigir ym Mangor, Dolgellau a Phwllheli

- 2.2 I grynhoi dyma'r hyn a gynigir

Sefyllfa Gyfredol	Sefyllfa Arfaethedig
Prif Swyddfeydd: Bangor/Dolgellau/Pwllheli Gorsafodd Allanol: Caernarfon, Deiniolen, Llanberis, Penygroes, Criccieth, Porthmadog, Blaenau Ffestiniog, Harlech, Penrhyndeudraeth, Trawsfynydd, Bala, Tywyn	Prif Swyddfeydd: Bangor/Dolgellau/Pwllheli Gorsafodd Allanol: Caernarfon, Porthmadog*, Bala, Tywyn *Gweler y sylwadau yn 3.6

- 2.3 Roedd y Cyngor Llawn ar 10 Rhagfyr 2009 wedi gofyn i'r gwasanaeth wneud arbediad o £18,550 o'i gyllideb trwy resymoli'r patrwm o ddarparu'r gwasanaeth. Bydd y newidadau a gynigir yn caniatáu i'r gwasanaeth gwrdd â'r gofyn hwn.
- 2.4 Wrth symud ymlaen i resymoli'r patrwm o ddarparu'r gwasanaeth bydd modd gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau prin trwy arbed ar amser a chostau teithio staff. Bydd hefyd arbediad ar y gost o ddefnyddio'r adeilad a chost offer/cysylltiadau cyfrifiadurol ac ati ynddynt. Rhaid cofio er mai ond efallai un apwyntiad

cofrestru sydd yn yr orsaf allanol, rhaid caniatáu amser i'r swyddog deithio i'r swyddfa dan sylw, parcio a gosod i fyny cyn cynnal y cyfweiliad cofrestru (Hefyd gwelir o brofiad y ceir mwy o broblemau gyda chyfrifiaduron yn codi yn y gorsafoedd allanol sy'n effeithio ar y gwasanaeth a gynigir). Bydd angen wedyn mynd trwy'r un broses ar ddiwedd y cofrestriad. Gwelwyd hefyd yn ystod yr haf bod yr amser teithio nôl ac ymlaen yn cynyddu yn sylweddol oherwydd cynnydd mewn traffig.

3. Ystyriaethau perthnasol

- 3.1 Gan fod y bwriad i resymoli'r patrwm o ddarparu'r gwasanaeth yn cael effaith ar y gwasanaeth a gynigir i'r cyhoedd fe aethpwyd allan i ymgynghori. Cafodd y ddogfen ymgynghorol gryn sylw yn y wasg. Ymddangosodd ar safle We newyddion BBC, Golwg a hefyd cafwyd nifer o erthyglau yn y Daily Post, Caernarfon Denbigh Herald a Chambrian News. Yn atodiad 2 ceir manylion am yr ymatebion a gafwyd yn y cyfnod ymgynghori ac i bwy ddsbarthwyd y ddogfen.
- 3.2 Fe welir y cafwyd cyfanswm o 16 o ymatebion, 3 gan unigolion, 2 gan gynghorwyr sir, 8 gan gynghorau cymuned, 1 gan gymdeithas hanes, 1 gan gynghorydd cymuned ag 1 gan plaid wleidyddol.
- 3.3 Ers 2009 pan ddaeth Gwynedd yn un rhanbarth cofrestru mae wedi bod yn bosib cofrestru unrhyw enedigaeth/marwolaeth a ddigwydd yn y sir mewn unrhyw un o'r safleoedd cofrestru. Fodd bynnag mae'r galw uchel sy'n dal i fodoli am y gwasanaeth ym Mangor yn dangos bod yna ffactorau eraill yn effeithio ar ddewisiadau pobl o lefydd i gofrestru megis presenoldeb yr ysbyty yno.
- 3.4 Mae yna opsiwn arall i drigolion sy'n byw yn rhanbarthau deheuol y Sir e.e. ardaloedd Bala a Thywyn, os yw'r enedigaeth/marwolaeth wedi digwydd mewn ysbyty yn Wrecsam neu Aberystwyth (sy'n eitha' cyffredin gan mai rhain yw eu hysbytai agosaf) nid ydym yn gallu gwneud y cofrestriad yng Ngwynedd. O gofio'r egwyddor bod rhaid i ddigwyddiad gael ei gofrestru yn y rhanbarth cofrestru lle mae wedi digwydd, yr oll yr ydym yn ei wneud yw casglu'r wybodaeth a'r ffi berthnasol a'i yrru ymlaen i'r Sir berthnasol i wneud y cofrestriad. Felly mae teithio i Swyddfa Gofrestru Sir gyfagos yn opsiwn felly os yn fwy cyfleus i'r dinesydd.
- 3.5 Rhaid cofrestru drwy gynnal cyfweiliad hefo'r cofrestrydd ac nid oes modd ar hyn o bryd cofrestru ar y we. Rhoddwyd ystyriaeth i

ddefnyddio llyfrgellwyr i gofrestru ond gwelwyd gan y byddai'n rhaid caniatáu hanner awr i bob cofrestriad ac y byddai hyn yn gorfod bod yn gyfrinachol, fyddai ddim yn bosib yn ystod oriau cyhoeddus y Llyfrgell.

- 3.6 Os derbynnir yr argymhellion bydd yn rhaid i'r gwasanaeth ystyried adleoli'r gwasanaeth yn rhai o'r safleoedd i adeiladau'r Cyngor. Hefyd bydd yn rhaid iddynt ystyried ar ba ddiwrnodiau y bydd yn ymarferol iddynt allu cynnig y gwasanaeth yno. Gyda'r bwriad o gael gwasanaeth ym Mhorthmadog ar gyfer dwyrain Dwyfor a gogledd Meirionnydd bwriedir lleoli'r gwasanaeth yn y Llyfrgell ym Mhorthmadog yn y tymor byr ond gallasai Benrhyndeudraeth yn y tymor hir gael ei ystyried pe byddai safle addas yn cael ei ddarganfod yno.
- 3.7 Cydnabyddir y bydd gostwng y nifer o safleoedd lle y gellir cofrestru genedigaethau a marwolaethau yn cael effaith ar y gwasanaeth a gynigir i'r dinesydd drwy leihau'r dewis o safleoedd i gofrestru sy'n agored iddynt. Fodd bynnag credir y dylid cymryd y canlynol i ystyriaeth hefyd:
- Ond ar adegau achlysurol iawn mae angen i'r dinesydd ymweld a chofrestrydd
 - Rhaid yn gyfreithiol cofrestru marwolaethau o fewn 5 diwrnod ac felly gwelwyd fod pobl yn tueddu i fynd am yr apwyntiadau cyntaf sydd ar gael a chan amlaf yn y 3 prif swyddfa mae'r rheiny.
 - Gyda genedigaethau mae yna gyfnod o 42 diwrnod i gofrestru sy'n canitau dipyn mwy o amser i drefnu yr apwyntiad. Hefyd toes dim angen i'r rhieni ddod a'r baban hefo nhw i'r apwyntiad.

4. Camau nesaf ac amserlen

- 4.1 Os yw'r Cabinet yn barod i gefnogi'r bwriad i newid y patrwm o ddarparu'r Gwasanaeth Cofrestru yn y Sir byddwn yn anelu i wneud hynny erbyn Ebrill 2013.

Barn y swyddogion statudol

Y Prif Weithredwr:

Gweithredu ar benderfyniad y mae'r Cyngor eisoes wedi ei wneud i resmoli'r ddarpariaeth, a gwneud arbediad arwyddocaol yn ei sgil, y mae'r adroddiad hwn. Mae'n annorffod felly bod yr argymhellion yn

golygu peth effaith ar y gwasanaeth. Fodd bynnag, heb gynigion eraill am ddarganfod y swm hynny, rhaid ceisio taro'r balans rhwng y rheidrwydd i resymoli ar y naill law ac amhoblogrwydd newidiadau ar y llall.

Y Swyddog Monitro:

Rwyf wedi bod yn rhan o'r trafodaethau i lunio'r argymhelliad ac yn fodlon ar briodoldeb yr hyn a gynigir.

Y Pennaeth Cyllid:

Fel dywedai rhan 2.3 o'r adroddiad, mae ymrwymiad gan yr Adran Democratiaeth a Chyfreithiol i gyflawni'r arbediad £18,550 fel rhan o'r arbedion £16m penderfynwyd arno gan y Cyngor llawn yn Rhagfyr 2009. Deallaf y bu ymgynghori trylwyr ar y cynigion ers hynny. Cadarnhaf, gyda chytundeb y Cabinet i'r newid patrwm darpariaeth Gwasanaeth Cofrestru, bydd y newidiadau dan sylw yma, ynghyd â mân addasiadau i gyllideb yr Uned, yn cyflawni'r arbediad gofynnol.

Atodiadau

Atodiad 1 – Manylion am swyddfeydd cofrestru

Atodiad 2 - Ymatebion a dderbyniwyd yn y cyfnod ymgynghori